Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Bryn Tabor

Ysgol Bryn Tabor
Heol Maelor
Coedpoeth
Wrecsam
LL11 3NB

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Bryn Tabor

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Bryn Tabor |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Bryn Tabor |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Kevin Williams |
| Person â gofal | Clare Lloyd |
| Nifer y lleoedd | 32 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 25 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 3 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Gwener, 08:45 – 15:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 04/05/2021. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma'r arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 12/05/2026 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod polisïau'r lleoliad yn adlewyrchu'r wybodaeth gywir a chyfredol, gan gynnwys y wybodaeth am drefniadau arwain y lleoliad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas â sut mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd eithriadol i hyrwyddo datblygiad diwylliannol plant drwy brofiadau cyfoethog, amrywiol ac ystyrlon sy'n dathlu amrywiaeth ac yn meithrin ymdeimlad cryf o hunaniaeth.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Rhagorol

Mae bron pob plentyn yn hyderus wrth wneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser. Maent yn gwybod y bydd eu anghenion a'u dymuniadau yn cael eu parchu gan ymarferwyr. Maent yn defnyddio'r amrywiaeth eang o weithgareddau ac adnoddau diddorol yn effeithiol i lunio eu cyfleoedd chwarae eu hunain ac i ddatblygu eu syniadau. Mae bron pob plentyn yn cyfathrebu'n hyderus, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn dibynnu ar ddulliau llafar yn unig, gan eu bod yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn ymateb iddynt.

Mae bron pob plentyn yn teimlo'n hapus ac yn cael ymdeimlad cadarn o berthyn. Mae gweithdrefnau setlo llwyddiannus a hyblyg yn helpu'r plant i deimlo'n ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus wrth gyrraedd y lleoliad. Mae ychydig iawn o blant sy'n ofidus wrth gyrraedd yn cael eu cefnogi'n effeithiol iawn gan ymarferwyr. Mae hyn yn helpu iddynt ymgartrefu'n hynod gyflym. Mae'r berthynas rhwng y plant a'r ymarferwyr yn gryf ac yn gefnogol ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at les y plant.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda iawn. Mae bron pob un yn cyd-chwarae neu'n chwarae ochr yn ochr â'i gilydd ac ymarferwyr yn arbennig o dda. Maent yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn llwyddiannus trwy drafod yn gyson wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n frwdfrydig â'i gilydd wrth gasglu'r tywod oddi ar y llawr. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â threfniadau'r dydd ac yn dysgu i ddilyn rheolau. Maent yn parchu pobl eraill ac eiddo, ac maent yn hapus i ryngweithio ag ymwelwyr. Mae lleiafrif o blant yn dechrau datblygu medrau empathi, er enghraifft wrth gysuro eu ffrind pan maent wedi brifo.

Mae bron pob plentyn yn ymddiddori'n frwd yn eu chwarae. Maent yn symud yn hyderus rhwng yr ardaloedd dan do ac awyr agored, gan archwilio'n annibynnol a dilyn eu diddordebau. O ganlyniad, maent yn dysgu sut i ganolbwyntio a dyfalbarhau yn arbennig o effeithiol. Mae'r plant yn elwa'n fawr o'r cyfnodau grŵp o dan arweiniad oedolion, er enghraifft y cyfnodau amser llyfr a chyfleoedd i ganu.

Mae bron pob plentyn yn hyderus wrth ymchwilio a rhoi cynnig ar bethau drostynt eu hunain. Maent yn magu annibyniaeth ac yn cyflawni sawl tasg ymarferol heb gymorth. Er enghraifft, maent yn hunangofrestru ac yn rheoli eu hanghenion personol fel golchi dwylo a gwisgo cot. Mae bron pob plentyn yn dangos eu bod yn deall gweithdrefnau wrth weini bwyd ac arllwys diodydd eu hunain yn ystod amser byrbryd. Maent yn cario eu diod a'u byrbryd yn annibynnol i'r bwrdd ac yn rhoi platiau a chwpanau i gadw.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Rhagorol

Mae ymarferwyr yn dangos gwybodaeth gadarn am bolisïau a gweithdrefnau diogelu plant ac yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon. Maent yn gweithio'n dda iawn i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn darparu cyfleoedd i'r plant fod yn yr awyr agored bob dydd, gan sicrhau digon o awyr iach ac ymarfer corff. Mae ymarferwyr yn cwblhau cofnodion trylwyr ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Mae ganddynt systemau cadarn i roi meddyginiaethau, os bydd angen, ac ar gyfer rheoli anghenion iechyd unigol y plant. Mae ymarferwyr yn rhoi sylw arbennig i bob agwedd ar hylendid ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Maent yn darparu byrbrydau iach ac mae systemau effeithiol ar waith i ymdopi ag alergeddau. Mae'r ymarferwyr yn cadw cofnod presenoldeb cywir o ymarferwyr, plant ac ymwelwyr. Maent yn goruchwylio plant yn llwyddiannus iawn ac yn cynnal ymarferion tân, sydd oll yn cyfrannu at ddarpariaeth ddiogel i'r plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes, adeiladol a chyfeillgar, gan greu awyrgylch eithriadol o hapus. Maent yn canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion, gan ddathlu eu llwyddiannau'n frwdfrydig. Maent yn adnabod y plant yn arbennig o dda, yn parchu eu diddordebau a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sy'n dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgaredd ac yn cynnig cysur, os oes angen. Mae pob ymarferydd yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol.

Mae ymarferwyr yn diwallu anghenion pob plentyn yn fedrus iawn, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cydweithio'n effeithiol iawn ag asiantaethau allanol, fel athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol, ac yn gweithredu ar gyngor arbenigwyr. O ganlyniad, mae'r plant yn gwneud cynnydd da iawn yn eu datblygiad. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n ymatebol, gan ddilyn diddordebau a syniadau'r plant. Maent yn defnyddio arsylwadau ac asesiadau fel rhan naturiol o ymarfer dyddiol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus iawn i gynllunio darpariaeth sy'n annog datblygiad plant.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo a dysgu parch at wahanol ddiwylliannau yn llwyddiannus. Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n gyson o fewn y ddarpariaeth, gyda defnydd effeithiol o ganu i hybu a chryfhau'r iaith. Mae gan ymarferwyr bartneriaeth effeithiol iawn â rhieni a gofalwyr, gan rannu gwybodaeth berthnasol am gynnydd a lles y plant.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol

Mae ymarferwyr hynod ymroddedig yn cydweithio'n fedrus i greu darpariaeth o ansawdd uchel. Maent yn sefydlu sail glir i'w gwaith sy'n adlewyrchu dealltwriaeth gadarn o sut mae plant yn datblygu a gwneud cynnydd. Maent yn darparu amgylchedd ysgogol a chyfoethog gydag adnoddau deniadol sy'n annog annibyniaeth, chwilfrydedd a datblygiad medrau'r plant. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o anghenion a diddordebau'r plant, sy'n llywio eu cynllunio o ddydd i ddydd. Maent yn gosod adnoddau'n fwriadus ac yn cynllunio profiadau pwrpasol sy'n ennyn diddordeb y plant ac adeiladu'n fedrus ar eu medrau. Maent yn dilyn diddordebau'r plant yn hynod effeithiol., Er enghraifft, wrth arsylwi ar blant yn mwynhau edrych ar flodau, maent yn darparu planhigion amrywiol i ysgogi eu chwilfrydedd Mae hyn yn sicrhau lefelau ymgysylltiad uchel, ac mae plant yn gwneud cynnydd arbennig o'u mannau cychwyn.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo medrau iaith a llythrennedd y plant yn fedrus drwy ddarparu ystod gyfoethog o lyfrau perthnasol o safon uchel ar draws y lleoliad. Mae hyn yn galluogi plant i ymestyn eu geirfa a dangos mwynhad mewn llyfrau. Maent yn gosod offer marcio yn fwriadus er mwyn annog plant i ysgrifennu i bwrpas. Er enghraifft, maent yn gosod clipfyrddau, papur a phensiliau yn y sied adeiladu sy'n annog plant i ysgrifennu rhestr o'r hyn sydd ei angen arnynt i adeiladu cwch. Maent yn fodelau iaith effeithiol iawn sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn naturiol, gan greu ethos Cymreig cadarn ar draws y lleoliad. Maent yn datblygu medrau rhifedd yn briodol drwy weithgareddau ymarferol wrth i blant gyfrif mewn sefyllfaoedd chwarae. Maent hefyd yn cefnogi datblygiad dyfalbarhad a datrys problemau yn effeithiol. Er enghraifft, pan mae offer creu pasta yn torri, maent yn cefnogi plant i'w drwsio drwy roi anogaeth a chanmol eu hymdrech.

Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau digidol plant drwy weithgareddau ystyrlon, megis tynnu lluniau, sganio codau a defnyddio llyfrau digidol. Mae plant yn defnyddio'r medrau hyn i gefnogi a chyfoethogi eu dysgu ar draws meysydd eraill. Er enghraifft, wrth wrando ar ganeuon dro ar ôl tro drwy dechnoleg, maent yn datblygu hyder i ganu'n annibynnol ac yn mynegi eu hunain yn greadigol drwy guro drymiau a chadw rhythm trwy symud a lleisio.

Mae ymarferwyr yn cynnig ystod eang o gyfleoedd ymarferol i ddatblygu medrau corfforol plant yn hynod effeithiol. Er enghraifft, maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n hyrwyddo medrau bras a manwl, megis dringo, teithio dros arwynebau anwastad a thrin deunyddiau creadigol fel gwehyddu a rholio paent. O ganlyniad, mae plant yn datblygu eu medrau cydsymud a'u hyder yn gadarn iawn.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cyfoethog iawn i ddatblygu ymwybyddiaeth foesol, gymdeithasol a diwylliannol y plant. Er enghraifft, drwy ddefnyddio llyfrau electronig sy'n dangos pobl o ddiwylliannau gwahanol a theuluoedd amrywiol, maent yn meithrin dealltwriaeth bod pawb yn unigryw. Mae ymarferwyr yn darparu adnoddau aml-ddiwylliannol gwerthfawr, er enghraifft baneri ac ymadroddion, sy'n adlewyrchu cefndiroedd  plant. Mae'r awyrgylch gynhwysol yn hybu ymdeimlad cryf o berthyn. Mae ymarferwyr yn helpu plant i ddysgu am grefydd yn grefftus drwy rannu storïau perthnasol.

Mae gan ymarferwyr weithdrefnau cadarn i asesu ac arsylwi ar blant, sy'n llywio ymarfer dyddiol yn grefftus. Maent yn ymyrryd yn sensitif ac yn amserol drwy fodelu er mwyn symud dysgu'r plant yn ei flaen yn llwyddiannus. Trwy holi meistrolgar a rhyngweithio gofalus, maent yn cefnogi ac yn herio'r plant yn fedrus. Mae ymarferwyr yn cadw arsylwadau manwl a pherthnasol sy'n llywio cynllunio pwrpasol. Mae cydweithio cryf ymhlith ymarferwyr yn sicrhau bod anghenion pob plentyn yn cael eu diwallu'n briodol. Drwy gyfarfodydd rheolaidd a llwyfannau digidol, maent yn cyfathrebu'n effeithiol iawn â rhieni a gofalwyr i gefnogi cynnydd pob plentyn.

### Yr amgylchedd:  Rhagorol

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gweithio'n ddiwyd i greu amgylchedd deniadol a diddorol i ddatblygu medrau'r plant yn fwriadus. O ganlyniad, mae ansawdd yr amgylchedd yn gyfoethog iawn, gan ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu dychymyg a'u medrau creadigol. Mae mynediad rhydd rhwng yr ardaloedd mewnol ac allanol drwy gydol y sesiwn, gan alluogi'r plant i ddewis ble i chwarae a dilyn eu diddordebau'n annibynnol. Nodwedd arbennig o'r gwasanaeth yw'r ddarpariaeth eang a phwrpasol ar draws yr holl ardaloedd.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân. Maent yn cofnodi gwiriadau diogelwch rheolaidd ac wedi datblygu asesiadau risg manwl sy'n cael eu hadolygu'n gyson, gan gynnwys ar gyfer teithiau y tu hwnt i'r lleoliad. Mae arweinwyr yn cadw cofnodion o blant, staff ac ymwelwyr, a gweithredir system gadarn i reoli mynediad, gyda phrif ddrysau dan glo bob amser. Mae driliau tân yn cael eu hymarfer yn rheolaidd ac ar amseroedd gwahanol, gan sicrhau bod plant yn gyfarwydd â'r trefniadau i'w dilyn mewn argyfwng.

Mae ansawdd yr amgylchedd chwarae a dysgu yn rhagorol. Mae'r ystafell chwarae yn groesawgar a chartrefol, gyda digon o le i'r plant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae ymarferwyr yn trefnu'r ardaloedd dysgu'n effeithiol iawn. Maent yn creu cyfleoedd pwrpasol a chyfoethog, gan gynnwys ystod eang o ddeunyddiau naturiol,  sy'n ysbrydoli'r plant i archwilio a datblygu eu dychymyg. Mae hyn yn meithrin chwilfrydedd ac yn cefnogi eu datblygiad creadigol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae adnoddau bywyd go iawn ar gael yn yr ardal tŷ bach twt a'r sied, ynghyd â chyfleoedd i ddefnyddio cyllell i dorri

ffrwythau a llysiau. Mae ymarferwyr yn annog  plant i ofalu am yr adnoddau, ac o ganlyniad, mae’r plant yn datblygu aeddfedrwydd a pharch at eiddo.

Mae arweinwyr yn darparu dodrefn ac adnoddau o ansawdd uchel sy'n briodol i oedran y plant, gan gynnwys rhai sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o amrywiaeth fel doliau a llyfrau coginio amlddiwylliannol. Cedwir yr adnoddau ar lefel isel i gefnogi annibyniaeth y plant ac i’w galluogi i wneud dewisiadau’n hyderus. Mae’r ardal allanol yn cynnig profiadau buddiol sy’n hyrwyddo datblygiad corfforol, creadigol ac ymchwiliol  plant. Er enghraifft, ceir cyfleoedd cyffrous i archwilio a darganfod drwy weithgareddau fel y gegin fwd, ardal beintio, a mannau dringo a chydbwyso. Mae’r plant yn mwynhau chwarae dychmygus, megis paratoi picnic neu arbrofi gyda dŵr, gan ddatblygu eu medrau mewn ffordd naturiol a hwyliog. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio’n ofalus mewn amgylchedd diogel ac ysgogol sy’n galluogi pob plentyn i ffynnu.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da

Mae arweinwyr yn llwyddo i greu tim cryf trwy gyfathrebu clir a chyson ag ymarferwyr. Mae gan y lleoliad ddatganiad o ddiben clir sy’n darparu darlun teg o’r wasanaeth a gynigir. Mae arweinwyr yn rhannu disgwyliadau uchel ac yn hyrwyddo diwylliant cynhwysol sy’n sicrhau bod pob aelod o staff yn deall eu cyfrifoldebau’n glir ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi . O ganlyniad, mae staff yn cydweithio’n hynod effeithiol, yn rhannu eu barn yn agored ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd er budd y plant a’r lleoliad cyfan.

Mae arweinwyr yn defnyddio prosesau hunanwerthuso effeithiol i nodi meysydd i’w gwella. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn chwarae rhan lawn yn y  broses ac yn cyfrannu syniadau defnyddiol yn dilyn hyfforddiant a fynychwyd. Mae hyn yn sicrhau bod y tîm yn perchnogi cynlluniau ac yn cyfrannu’n fwriadus at welliant parhaus y lleoliad. Gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol, maent yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau i ymateb i’r meysydd datblygu.  Maent yn buddsoddi mewn adnoddau addas sy’n cyfoethogi’r ddarpariaeth ac yn ehangu cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau a’u hannibyniaeth.

Mae arweinwyr yn rheoli staff ac adnoddau yn effeithiol ac yn dilyn prosesau recriwtio diogel a chadarn. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd datblygiad proffesiynol rheolaidd yn cefnogi ansawdd y ddarpariaeth yn fwriadus. Maent yn annog ymarferwyr i fynychu hyfforddiant perthnasol sy’n dyfnhau eu dealltwriaeth o ddatblygiad plant a’r cwricwlwm. Mae arweinwyr yn trefnu cyfarfodydd wythnosol gydag ymarferwyr sy’n gyfleoedd gwerthfawr i drafod datblygiad plant a rhannu syniadau. O ganlyniad, mae mewnbwn gan y tîm cyfan yn cyfrannu at wella’r ddarpariaeth o ddydd i ddydd a darparu’n ymatebol i anghenion a diddordebau’r plant.

Mae systemau rheoli staff yn drefnus, gyda ffeiliau cynhwysfawr a rolau clir, sy’n cynorthwyo cydweithio effeithiol. Mae arweinwyr yn cynnal goruchwyliaeth gefnogol sy’n

hyrwyddo ymdeimlad cryf o dîm. Maent yn darparu amrediad buddiol o bolisïau sy'n cefnogi gwaith y lleoliad yn effeithiol. Er hyn, nid yw'r wybodaeth yn y polisïau hyn bob amser yn gyson nac yn gyfredol ac nid yw'r wybodaeth am drefniadau arwain y lleoliad bob amser yn glir.

Mae gan y lleoliad drefniadau pontio cadarn gyda'r ysgol leol sy'n galluogi plant i bontio'n llwyddiannus a symud yn hyderus i'r cam nesaf o'u haddysg. Mae arweinwyr yn darparu profiadau gwerthfawr yn y gymuned sy'n cyfoethogi dysgu'r plant. Maent yn sicrhau bod gwybodaeth bwysig yn cael ei rhannu'n briodol gyda theuluoedd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/07/2026